**ADNODD Y DYSGWYR – E-Lyfr 'Plentyndod Dylan Thomas'**

Darllenwch yr e-lyfr 'Plentyndod Dylan Thomas' http://www.rockandrollpoet.co.uk/ebook/index-cym.html#book/page/1 ac yna atebwch y cwestiynau hyn.

1. Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 6.
   Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Y teulu'n symud i Cwmdonkin Drive. | |
| Dylan yn mynd i ysgol Mrs Hole. | |
| Dylan yn dechrau yn Ysgol Ramadeg Abertawe. | |
| Tad Dylan Thomas yn dechrau gweithio fel athro yn Abertawe. | 1 |
| Dylan yn cael gwersi llafareg. | |
| Dylan yn mwynhau chwarae ym Mharc Cwmdonkin. | |

2. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

   Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | cywir | anghywir |
|---|---|---|
| Roedd tad-cu Dylan yn gweithio gyda'r rheilffordd. | | |
| Athro oedd tad Dylan. | | |
| Roedd deg o blant yn nheulu Florrie Thomas. | | |
| Hen stryd oedd Cwmdonkin Drive. | | |
| Roedd Dylan yn mwynhau dringo'r coed ym Mharc Cwmdonkin. | | |
| Roedd Dylan yn fachgen cryf. | | |
| Doedd Dylan ddim yn hoffi darllen comics. | | |
| Cafodd Dylan ddamwain ar ei feic newydd. | | |
| Enillodd Dylan ras yn rhedeg dwy filltir yn yr ysgol. | | |

3. **Tanlinellwch 1** gair sy'n dweud bod Florrie, mam Dylan yn dda mewn cerddoriaeth.

Cafodd Florrie, mam Dylan, ei geni a'i magu yn ardal St Thomas, ger y dociau yn Abertawe. Hi oedd yr ieuengaf o wyth o blant. Roedd ei rhieni hi'n dod o ardal Llansteffan, yn sir Gaerfyrddin, ac roedden nhw wedi eu magu ar ffermydd. Roedden nhw hefyd yn mynd i'r capel yn gyson. Gwniadwraig oedd Florrie ond roedd hi'n gerddorol iawn hefyd. Ei chwaer oedd organyddes y capel lleol yn St Thomas.

4. Beth oedd y digwyddiad pwysig a ddechreuodd yr un flwyddyn â geni Dylan Thomas ?
   Ticiwch **1**.

   Yr Ail Ryfel Byd ☐

   Cwpan Pêl-droed y Byd ☐

   Y Rhyfel Byd Cyntaf ☐

   Cwpan Rygbi'r Byd ☐

5. Dewiswch y gair gorau.
   Ticiwch **1** bob tro.

   **Pa fath o blentyn oedd Dylan Thomas?**

   a. cas  trist  gwanllyd  trafferthus

   **Beth oedd gwaith gŵr Anti Dosie?**

   b. glöwr  athro  meddyg  gweinidog

   **Yn erbyn beth aeth Dylan ar ei feic newydd?**

   c. ambiwlans  fan  carafán  car

6. Edrychwch ar **dudalen 12** eto.
   Dewiswch a chopïwch yr ymadrodd sy'n golygu **drwy'r amser** neu **o hyd ac o hyd**.

7. Tynnwch **4** llinell i ddangos pwy oedd pwy yn yr e-lyfr.

| | |
|---|---|
| D.J.Thomas | Chwaer Dylan |
| Florrie Thomas | Tad Dylan |
| Nancy Marlees | Athrawes Dylan |
| Mrs Isabel Hole | Mam Dylan |

8. **Tanlinellwch 4** gair sy'n dweud ym mha bethau roedd Dylan yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Wrth i Dylan fynd yn henach, roedd pobl yn meddwl ei fod yn ddeallus ond yn ddiog. Roedd yn osgoi gwaith ond roedd yn dda iawn mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg.

9. Edrychwch ar dudalen 16 eto.
**Dewiswch a chopïwch** y frawddeg sy'n dweud beth oedd barn Dylan am ddarllen.

10. Dyma gopi o'r testun.

Un o Gaerfyrddin oedd tad Dylan, D.J. Thomas (Jack). Ond ar ôl bod i'r brifysgol yn Aberystwyth, roedd wedi cael swydd fel athro Saesneg yn ysgol ramadeg Abertawe yn 1901. Roedd ei dad yntau (tad-cu Dylan) yn gweithio ar y rheilffordd. Roedd tad-cu Dylan wedi byw gyda'i deulu ifanc yn Abertawe am ychydig, cyn symud yn ôl i Gaerfyrddin. Yno cafodd D.J. Thomas ei eni ym mis Ebrill 1876. Roedd tad Dylan yn mwynhau astudio ac roedd yn athro uchel iawn ei barch.

Labelwch bob saeth â'r llythyren gywir:
A = cromfachau
B = dyddiad
C = prif lythyren ar ddechrau enw lle
Ch = prif lythyren ar ddechrau enw person

D = atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg
Dd = prif lythyren ar ddechrau brawddeg